

Sut i...

Strwythuro eich traethawd

Mae'r traethawd academaidd yn aseiniad cyffredin mewn cyrsiau prifysgol lle mae'n rhaid i chi ysgrifennu am bwnc penodol. Pwrpas traethawd yw ateb cwestiwn penodol o fewn cyfyngiad geiriau penodol.

Prif nodweddion traethawd

Cyflwyniad

- Mae'r cyflwyniad yn nodi dechrau ffurfiol y traethawd.
- Dyma lle rydych chi'n rhoi gwybod i'r darlennydd sut rydych chi'n mynd i'r afael â chwestiwn y traethawd.
- Mae'r cyflwyniad yn rhoi ychydig o gefndir sylfaenol am y maes pwnc allweddol - yn aml mae'n dechrau'n eang, yna'n dod yn fwy penodol.
- Rhowch grynodedd clir i'r darlennydd o'ch prif ddadl, y pwyntiau rydych chi'n mynd i'w trafod, ac unrhyw dechnegau neu fethodolegau neu ddamcaniaethau y byddwch chi'n eu defnyddio.
- Byddwch am amlinellu beth yw pwrpas yr aseiniad a pha amcanion y mae angen i chi eu cyflawni. Bydd yr amcanion hyn yn eich helpu i strwythuro prif ran eich traethawd.
- Dangoswch i'r darlennydd beth rydych chi'n ceisio'i wneud â'r traethawd. Bydd prif ran y traethawd yn canolbwyntio'n ddyfnach ar hyn oll.

Prif ran

- Y prif ran fydd y rhan fwyaf o'ch traethawd a lle byddwch yn dangos eich gwybodaeth.
- Daw'r wybodaeth hon o'ch ymchwil eich hun i ateb cwestiwn y traethawd.
- Dyma lle rydych chi'n dadansoddi'r wybodaeth rydych chi wedi'i chanfod i ateb cwestiwn y traethawd a'i ddadansoddi yn eich traethawd.
- Mae prif ran traethodau wedi'i drefnu'n baragraffau.
- Pan fyddwch chi'n ysgrifennu traethawd, rydych chi'n cefnogi'ch pwynt trwy ddefnyddio paragraffau sy'n gwneud synnwyr, sydd â thystiolaeth, ac sy'n llifo'n esmwyth o un i'r llall.
- Dylai pob paragraff sôn am bwynt gwahanol sy'n helpu i ateb y prif gwestiwn.
- Yn y traethawd, dadansoddwch bob prif bwynt trwy ddefnyddio enghreifftiau o'ch profiadau eich hunain, yn ogystal â thrwy gyfeirio at wybodaeth a damcaniaethau o wahanol ffynonellau ysgolheigaidd megis llyfrau, cyfnodolion, gwefannau a darlithoedd.
- Peidiwch ag anghofio ategu eich dadl gyda thystiolaeth o'r darlenniadau.
- Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n defnyddio'ch sgiliau meddwl beirniadol i feddwl am eich dadl eich hun.

Casgliad

- Y casgliad yw rhan olaf y traethawd lle byddwch yn crynhoi'r holl brif bwyntiau a dadleuon sy'n arwain at ddatganiad terfynol.
- Rydych chi'n rhoi gwybod i'r darlennydd sut mae'r cynnwys y buoch chi'n sôn amdano ym mhrif ran y traethawd yn helpu i ateb y cwestiwn neu gefnogi eich dadl.
- Nid yw'r casgliad yn cynnwys unrhyw bwyntiau newydd na gwybodaeth newydd.
- Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cysylltu'ch casgliad yn ôl â'r cwestiwn traethawd gwreiddiol. Mae hon yn ffordd allweddol o ddangos eich bod wedi ei hateb.
- Crynowch eich prif bwynt mewn cwpl o frawddegau, ond gwnewch yn siŵr eich bod yn ychwanegu ychydig mwy o esboniad nag a wnaethoch yn y cyflwyniad.
- Tra bod eich cyflwyniad yn mynd o wybodaeth eang i wybodaeth benodol, dylai'r casgliad fynd o un penodol yn ôl i'r eang.
- Siaradwch am sut mae prif ran eich traethawd yn edrych ar y pwyntiau hyn i gefnogi eich dadl.
- Mewn rhai traethodau, gallwch hefyd ddefnyddio'r casgliad i awgrymu syniadau ar gyfer ymchwil yn y dyfodol.

Llyfryddiaeth

- Daw llyfryddiaeth (neu restr gyfeirio) ar ôl y casgliad ac mae'n cynnwys yr holl wybodaeth lyfryddol am y ffynonellau rydych chi wedi'u defnyddio yn y traethawd.
- Dyma lle rydych chi'n rhestru ac yn cydnabod yr holl ffynonellau y cyfeiriwyd atynt.
- Cymerwch amser a gofal ar y cam hwn.
- Dilynwch arddull cyfeirnod eich Adran a chyfeiriwch yn ôl i'ch llawlyfr modiwl.
- Cysylltwch â'ch [Llyfrgellydd Pwnc](#) am gyngor cyfeirnod.